

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Ionawr 2012

Senario

Cyfeirnod y Papur

6953/01W

Dylai'r senario gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Ffeiliau ymarfer: AHHLImport_practice.txt, Sasha Blue_practice.xls

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Trowch y dudalen

W41455A

©2012 Edexcel Limited.

1/



edexcel 

advancing learning, changing lives

Senario

Sasha Blue Skies

Bu Sasha Bluett yn gweithio ym maes Adnoddau Dynol i gwmni gweithgynhyrchu mawr.

Fe wnaeth hi golli ei gwaith (*was made redundant*) pan oedd hi'n 35 oed. Gan fod swm rhesymol o gynilion (*savings*) ganddi ac oherwydd ei bod hi wedi cael setliad hael wrth golli ei gwaith, roedd hi'n teimlo'n barod am her newydd.

Roedd Sasha eisoes yn berchen ar gartref gwyliau yn ne Ffrainc, a defnyddiodd hi ei setliad colli gwaith (*redundancy settlement*) i brynu ail eiddo yn yr un ardal. Ei syniad hi oedd creu incwm drwy rentu'r ddau eiddo fel filas gwyliau.

Treuliodd Sasha dri mis yn gweithio ar y ddau eiddo yn gwella'r ddau fel eu bod yn cyrraedd y safon briodol. Ar gyfer pob eiddo, fe wnaeth hi drefnu pobl i lanhau'r tŷ ac i ofalu am yr ardd. Roedd pwll yn un o'r tai, felly trefnodd hi fod rhywun yn glanhau'r pwll drwy gydol y tymor gwyliau. Fe wnaeth hi drefnu taliadau debyd uniongyrchol ar gyfer y biliau cyfleustodau (*utility bills*) (nwy, dŵr a thrydan).

Yn wreiddiol, y rhent oedd £600 yr wythnos ar gyfer y tŷ â'r pwll a £500 yr wythnos ar gyfer yr eiddo arall. Roedd hi wedi sylwi bod y ddau eiddo wedi cael eu bwcio'n llawn drwy gydol y tymor brig (*peak*) (Gorffennaf ac Awst) a'r tymor all-frig (*off peak*) (Ebrill, Mai, Mehefin, Medi a Hydref) am y rhenti hyn.

Dros y blynyddoedd nesaf, prynodd Sasha wyth eiddo arall yn ne Ffrainc. Roedd rhai o'r rhain yn ddigon agos at y *Pyrenees* fel eu bod yn gallu cael eu rhentu i sgiwyr (*skiers*). Mae'r tymor sgio yn para o fis Tachwedd i fis Chwefror. Hefyd, roedd ei holl eiddo yn gallu cael eu rhentu dros wyliau'r Nadolig.

Mae gwaith cynnal a chadw (*maintenance*) mawr ar yr eiddo'n cael ei wneud y tu allan i'r tymor gwyliau (*during the off season*).

Roedd busnes Sasha mor llwyddiannus fel ei bod hi wedi penderfynu ffurfio cwmni cyfyngedig, am resymau treth a rhesymau eraill. Fe wnaeth hi roi'r enw '*Sasha Blue Skies*' ar y cwmni a'i gysylltu (*affiliated it*) â 'Cymdeithas Gosod Cartrefi Gwyliau' (*Association of Holiday Home Letting – AHHL*). Yn ogystal â rhoi cymorth a gwybodaeth, mae'r AHHL yn cynnig amddiffyniad (*protection*) i gwsmeriaid cwmni pe bai'r busnes yn methu. Roedd cael yr amddiffyniad hwn yn golygu bod mwy fyth o bobl yn barod i fwcio eiddo gyda '*Sasha Blue Skies*'. Nawr mae modd bwcio eiddo '*Sasha Blue Skies*' drwy wefan AHHL.

Roedd AHHL wedi darparu ymgynghorydd (*consultant*) i archwilio'r cwmni ac argymell gwelliannau. Roedd yr ymgynghorydd wedi cynghori cynnal adolygiad o'r polisi codi tâl, oherwydd roedd pris ambell eiddo yn rhy isel a phris ambell eiddo arall yn rhy uchel.

Mae'r AHHL yn cynnig fformiwlâu sy'n helpu cwmnïau cysylltiedig i gyfrifo gwerth rhent eu heiddo. Mae'r fformiwlâu yn graddio pob eiddo gan ddefnyddio system bwyntiau.

Mae'r AHHL yn cyhoeddi tabl bob blwyddyn. Mae dwy gyfres o werthoedd yn y tabl hwn. Mae'r gyfres gyntaf yn dangos amcangyfrif o'r rhenti uchaf a ddylai olygu y bydd eiddo'n cael ei feddiannu am 100% o dymor. Mae'r ail gyfres yn dangos amcangyfrif o'r rhenti uchaf a ddylai olygu y bydd eiddo'n cael ei feddiannu am 80% o dymor. Mae pedwar tymor: Tymor Brig yr Haf, y Tymor All-frig, Cyfnod Brig Sgio, a'r Nadolig.

Gyda'r holl wybodaeth hon, dechreuodd Sasha weithio allan model er mwyn gosod pris rhentu pob eiddo. Ei nod hi oedd gosod pris a fyddai'n sicrhau'r elw (*profit*) mwyaf o bob eiddo. Yn anffodus, oherwydd pwysau gwaith, mae hi wedi methu cwblhau'r model.

Disgrifiad o'r model

Taflen waith	Disgrifiad
<i>Rental Setting</i>	Yn y daflen waith hon, byddwch yn cofnodi'r pris rhent rydych chi'n ei awgrymu ar gyfer pob eiddo ym mhob tymor. Bydd yn dangos y refeniw, y costau a'r elw ar gyfer pob eiddo a hefyd, bydd yn dangos cyfansymiau ar gyfer pob eiddo.
<i>Costs</i>	Bydd y daflen waith hon yn dangos y costau, wedi eu dadansoddi, ar gyfer pob eiddo. Bydd y rhain yn gostau sefydlog (<i>fixed costs</i>) (sef y costau hynny sy'n digwydd dim ots sawl wythnos mae'r eiddo'n cael eu rhentu) ac yn gostau newidiol (<i>variable costs</i>) (y costau sy'n amrywio yn ôl faint mae'r eiddo'n cael eu defnyddio). Mae'r gwerthoedd hyn wedi eu seilio ar gostau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer pob eiddo.
<i>Revenue</i>	Mae'r daflen waith ' <i>revenue</i> ' yn cyfrifo'r refeniw sy'n cael ei wneud gan bob eiddo yn ôl y rhent sy'n cael ei osod gennych chi.
<i>Season Weeks</i>	Mae'r daflen waith hon yn cyfrifo nifer yr wythnosau y mae pob eiddo ar gael yn ystod pob tymor
<i>Ratings</i>	Mae'r daflen waith hon wedi'i seilio ar y fformiwlâu sy'n cael eu darparu gan AHHL ac mae'n dangos y graddfeydd (<i>ratings</i>) ar gyfer pob eiddo yn ystod pob un o'r pedwar tymor.
<i>SP Calc, OP Calc, SK Calc a CH Calc</i>	Mae'r taflenni gwaith hyn yn cyfrifo canran defnyddio pob eiddo yn ôl rhenti penodol. Mae un daflen waith ar gyfer pob tymor. Mae'r rhain wedi eu seilio ar y gwerthoedd sy'n cael eu rhoi'n flynyddol gan AHHL.
<i>AHHL</i>	Bydd y daflen waith hon yn cynnwys y gwerthoedd sydd wedi eu darparu gan AHHL.

Mae rhai celloedd yn y model wedi eu diogelu gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Cofiwch, os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi ei diogelu, mae'n bosibl na fydd y model yn gweithio.